



Diweddariad Cymunedol

Gwanwyn 2020



Helo a chroeso

i rifyn y Gwanwyn 2020 o'r Diweddariad Cymunedol oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Yn y rhifyn hwn byddwch yn darllen am amrywiaeth o brosiectau a mentrau yr ydym yn ymgymryd â nhw â'n cymunedau lleol, partneriaid a rhanddeiliaid, er mwyn bodloni ein dibenion a'n dyletswyddau statudol ac er budd y sawl sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â'r Parc Cenedlaethol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n holl wirfoddolwyr gwyb sy'n rhoi o'u hamser, egni a phrofiad i weithio gyda'n staff ymroddedig. Mae hon yn ardal arbennig a ddiogelir ac mae gwaith caled ein staff a'n gwirfoddolwyr mor bwysig i lwyddiant y prosiectau hyn o ran gwella'r ardal.

Os hoffech fod ar ein rhestr bostio neu gyfrannu at rifynnau'r dyfodol, cysylltwch â'r Tîm Cymunedau a restrir ar A-Z gwasanaethau ar ddiwedd y cylchlythyr hwn. Mae'r cylchlythyr hwn ar gael ar-lein bellach hefyd yma www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/diweddariad-cymunedol

Y Cyngorydd Gareth Ratcliffe, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Yn y rhifyn hwn

P2 Cydnabyddiaeth i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol am weithredoedd gwyrdd

P3 Prosiect y Bele Ysgolion yn mwynhau chwedlau Cymraeg Rhywogaethau goresgynnol

P4 Map 3D daearegol newydd Tai bach newydd cynaliadwy ar gyfer Llangors

P5 Nodweddion Gwlad y Rhaeadrau

P6 Newyddion Partneriaeth Defnyddio Tiroedd y Mynyddoedd Duon

P7 Digwyddiadau

P8- P9 A-Y yr Awdurdod

Cynllun Gweithredu sy'n Deillio o Gymuned Aberhonddu – Mae'r ymgynghoriad Ar Agor Bellach

Dros y tair blynedd ddiwethaf bu Grŵp 20:20 Aberhonddu yn gweithio ar ddatblygu cynllun bro Aberhonddu.

O ganlyniad i'r arolwg preswylwyr, cymeradwywyd cynllun gweithredu drafft a chanllaw cynllunio atodol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB) ar 11 Chwefror 2020 ac y mae bellach yn agored i ymgynghoriad. Hoffai Grŵp 20:20 Aberhonddu glywed eich safbwyntiau am eu cynllun gweithredu a gellir dod o hyd iddo yma <https://www.bannaubrycheiniog.org/cynllunio/strategaeth-a-pholisi/ymgyngoriadau/>

Mae'r cynllun yn cynnwys amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r dref gan gynnwys golygfa stryd, parcio, manwerthu, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, tai, y celfyddydau a diwylliant, gwagleoedd gwyrdd, chwaraeon, ynni a newid hinsawdd.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad ar wefan APCBB neu e-bostiwrch Grŵp 20:20 Aberhonddu yn uniongyrchol Brecontownplan@gmail.com Am wybodaeth bellach cysylltwch â'r tîm Cynllun Bro placeplans@beacons-npa.gov.uk neu ffoniwch Helen Roderick, Swyddog Datblygu Cynaliadwy ar 01874 620417. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 23 Ebrill.





Coed Nadolig gwahanol!

Cafwyd dathliad Nadolig arloesol gan staff a gwirfoddolwyr Parc Gwledig Craig-y-nos yng Nghwm Tawe Uchaf gyda'r gymuned leol ac ymwelwyr. I ddechrau, cafodd coeden goniffer o'r Parc Gwledig ei thorri a'i gosod ar y patio ger y caffi. Yn ogystal â'r golau a'r bôbbs arferol, cafodd y goeden ei haddurno â chylchoedd pren crog, 'bisgedi pren', ble y gallai ymwelwyr ysgrifennu eu dymuniadau ar gyfer dyfodol y blaned. Cafodd rhoddion am y bisgedi pren eu rhoi tuag at blannu rhagor o goed yng Nghraig-y-nos. Y gobaith yw ailadrodd y Goeden Ddymuniadau boblogaidd y Nadolig nesaf.

Yn ail, crëwyd gât coeden Nadolig ar gyfer Gŵyl Coed Nadolig Eglwys Sant Cynog, Ystradgynlais. Roedd y goeden ymhlith 40 o goed eraill o ysgolion, sefydliadau a busnesau lleol ac roedd yn cynnwys logos o'r holl sefydliadau a busnesau sy'n defnyddio Parc Gwledig Craig-y-nos.



Staff Craig-y-nos â'u gât coeden Nadolig anarferol



Kevin Booke Swyddog Systemau TG a Fflyd, (canol) yn derbyn y wobwr 'Prif Seren Ariannol'

Cydnabyddiaeth genedlaethol am weithredoedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cafodd APCBB ei enwebu am sawl gwobr i gydnabod y gwaith y bu'n ei gyflawni o ran mynd yn wyrddach wrth amnewid ceir tanwydd ei fflyd â cherbydau trydan.

Mae bron 50% o fflyd yr Awdurdod yn drydan bellach. Yr wythnos ddiwethaf mynychodd Kevin Booker, Swyddog Systemau TG a Fflyd, y seremoni wobrwyo ganlynol: Fleet World's Great British Fleet Awards 2020, ble yr enillodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wobwr 'Prif Seren Ariannol - y dewin ariannol neu'r tîm sydd wedi datblygu'r strategaeth fwyaf deallus ac arloesol o redeg fflyd gost-effeithiol.' Cafodd y gwobrau eu dyfarnu gan banel arbenigol o olygyddion Fleet World sy'n anrhydeddu rhagoriaeth mewn rheoli fflyd yn ogystal â'r nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cefnogi gweithredwyr sy'n rhedeg fflyd fwy diogel, gwyrdd a chost-effeithiol.

Cyn ennill y wobwr hon, cymeradwywyd yr Awdurdod yng Ngwobrau Fflyd Werdd, Fflyd y Flwyddyn y Sector Cyhoeddus (bach i ganolig) a hefyd cafwyd cymeradwyaeth uchel yng Ngwobrau Arwr Fflyd Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar gyfer 'Arwr Cerbyd Trydanol.'

Yn ychwanegol at hyn, yn dilyn mewnosod cynllun hydro-drydanol, cafodd paneli solar eu gosod ar nifer o adeiladau APCBB. Yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r paneli gwnaeth arae solar Depo'r Warden eneradu 8.75MWh o drydan, digon ar gyfer 35,000 milltir un o gerbydau trydanol yr Awdurdod. Canlyniad hyn oedd arbed 2237kg o CO2.


Map newydd ar-lein i'r Anturiaethwr yn hwyluso hysbysu am faterion hawliau tramwy

Ydych chi wedi dod ar draws problem am hawliau tramwy cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol?

Ceir 1175 milltir o hawliau tramwy i'w fforio oddi fewn i'r Parc Cenedlaethol. Maen nhw'n cynnwys llwybrau troed cyhoeddus, llwybrau ceffyl, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd agored i draffig. Mae Tîm Hawliau Tramwy'r Awdurdod wedi datblygu Map Anturiaethwr sy'n dangos yr holl hawliau tramwy cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol ac sy'n galluogi defnyddwyr i roi gwybod am broblemau drwy nodi'r lleoliad yn fanwl ar y map a darparu disgrifiad cryno o'r broblem ynghyd â hyd at bedwar ffotograff.

Ar ôl logio'r broblem ar y map, caiff ei anfon at Dimau Hawliau Tramwy a'r Warden a fydd yn archwilio a blaenoriaethu'r broblem.

Mae'r Map Anturiaethwr ar gael i'ch ffôn neu dabled a gellir dod o hyd iddo ar dudalen Rhowch Wybod gwefan APCBB neu'r ddolen ganlynol
www.bannaubrycheiniog.org/amgylchedd/mynediad-a-hawliau-tramwy





Gwirfoddolwyr yn gosod trapiau camera

Bywyd gwyllt ar ffilm gan Wirfoddolwyr yr Uwchdir

Fel rhan o Brosiect Bele Gwirfoddolwyr yr Uwchdir, gosododd gwirfoddolwyr 30 trap camera â'r bwriad o osod 10 yn rhagor yn y dyfodol agos. Er nad ydynt wedi cael unrhyw ddelweddau o'r bele hyd yma, maen nhw wedi tynnu llun o rai delweddau ffantastig ddydd a nos o fywyd gwyllt gwych ac amrywiol y Parc Cenedlaethol gan gynnwys ceirw (Coch, Roe a Muntjac), ysgyfarnogod, llwynogod, moch daear a chnocell y coed.



Ysgol Gynradd Crucywel ar Fynydd Illtud

Dod â mythau a chwedlau Cymru'n fyw!

Mae Tîm Addysgiadol APCBB wedi bod yn brysur yn cynnal dyddiadau addysgiadol llawn hwyl sy'n cefnogi'r cwricwlwm i ysgolion cynradd lleol. Hydref diwethaf dysgodd pob disgybl o Flynnyddoedd 2- 6 Ysgol Gymraeg Dyffryn Y Glowyr am chwedl y Twrch Trwyth (baedd gwyllt a gafodd ei ddal gan dywysog ifanc) a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwnaeth Swyddogion Addysg helpu'r disgyblion i ysgrifennu byrddau stori a gwneud ffyn stori gan ddefnyddio tiroedd awyr agored yr ysgol i ddod o hyd i ddeunyddiau naturiol i'w gosod ar eu ffyn stori. Mae pob disgybl bellach yn deall pam mai Cwmtwrch yw enw'r pentref ble y saif eu hysgol!

Hefyd, fis Ionawr yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, gwnaeth disgyblion Ysgol Gynradd Crucywel fwynhau chwedl y Twrch Trwyth drwy adrodd straeon, cerddoriaeth, ysgrifennu, creu pypedau a thaith gerdded yn awelon Mynydd Illtud. Dywedodd y Dirprwy Bennaeth, Rob Francis, "Mae'r plant wedi elwa'n fawr o'r addysgu arbenigol iawn sydd wedi eu galluogi i ddeall rhagor am eu chwedlau lleol a phrofi diwrnod allan cwbl ryngweithiol ym Mannau Brycheiniog."

Goresgynwyr Prosiect y Parc Cenedlaethol – Rhododendrons

Dros y gaef bu'r Tîm Rhywogaethau Estron Goresgynnol yn canolbwyntio ar rywogaeth planhigyn goresgynnol arall sy'n tyfu yn y Parc Cenedlaethol.



Y rhododendron goresgynnol

Gan gydweithio â Thîm Warden Ardal y Gorllewin, maen nhw wedi dechrau rheoli'r llwyn bythwyrdd, sef y Rhododendron (Rhododendron ponticum), ar lethrau'r Cribarth, ardal hen chwareli calch a ffyrdd tramiau a leolir uwch ben Barc Gwledig Craig-y-nos ym mhen uchaf Cwm Tawe. Beth sydd mor arbennig am y Cribarth? Yn ôl Alan Bowring, Swyddog Geoparc APCBB, dyma ardal fwyaf diddorol APCBB o ran geo-amrywiaeth. Mae'r safle hefyd yn Heneb Restredig, sy'n esbonio'r angen i ddi'f'r rhywogaeth estron goresgynnol hwn o ardal sy'n bwysig yn ddaearogol ac yn hanesyddol.

Mae'r Rhododendron yn gynhenid i dde-orllewin Asia a de-orllewin Ewrop. Cafodd ei gyflwyno i Brydain o Sbaen/Portiwgal ym 1763. Byddai ystadau Fictoriaidd yn ei ddefnyddio fel lloches i adar helwriaeth ac mewn gerddi addurniadol. Cafodd y planhigyn estron goresgynnol hwn ei gofnodi'n tyfu'n wyllt yn gyntaf yn Swydd Lincoln ym 1894. Llwyn mawr bythwyrdd â blodau pinc/porffor deniadol ydyw â dail fel lledr. Mae'n lledaenu drwy sugnwyr a hadau bach sy'n cael eu chwythu gan y gwynt dros bellteroedd maith. Bellach gellir dod o hyd iddo mewn sawl cynefin: coetir, llethrau creigiog, ar hyd glannau afonydd ac mewn parciau a gerddi. Ac eithrio'i flodau deniadol, caiff y llwyn ymosodol hwn effaith negyddol ar unrhyw safle y mae'n ei oresgyn. Mae'n gostwng bioamrywiaeth unrhyw gynefin wrth i'r llwyni aeddfed gysgodi allan flora cynefin, a gall leihau mynediad at safle drwy ei faint enfawr a dwysedd y llwyni sy'n bresennol. Mae sbesimenau aeddfed o'r rhododendron hefyd yn ymddwyn fel ffynhonnell sylweddol o hadau i oresgyn ardaloedd newydd.

Sut allwch chi helpu? Rhowch wybod ble weloch chi'r planhigyn gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod neu anfonwch y manylion yn uniongyrchol i'r Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth (BIS): www.bis.org.uk neu ffoniwch: 01874 610881. Neu gallwch gyflwyno gwybodaeth am weld rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) i BIS wrth ddefnyddio WiReD neu Ap y Ganolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol (LERC) i gofnodi unrhyw INNS a welwyd, ar eich ffôn symudol tra'ch bod chi allan yn yr awyr agored.

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach am y prosiect, cysylltwch â Bev Lewis, Cydlynnydd y Prosiect. Ffôn: 07854 997 508 neu e-bost: Beverley.Lewis@beacons-nga.gov.uk



“Bwrw iddi” â dehongli daearegol

Cafodd map 3D newydd cyffyrddol sy'n dangos tirlun dramatig Geoparc Byd-eang UNESCO, Fforest Fawr, ei osod ar y teras ym Mharc Gwledig Craig-y-nos.

Crëwyd y model gan Rubin Eynon, artist lleol ar y cyd â Suzanna Jones, Clarissa Price ac Alan Bowring o APCBB. Mae'n seiliedig ar ddata Lidar ac wedi ei gastio mewn efydd â thrawstoriad daearegol diddorol o gwmpas ei berimedr. Bydd yn adnodd addysgu gwerthfawr i'r Tîm Addysg wrth iddynt esbonio tirlun arbennig APCBB i'r holl ysgolion sy'n ymweld â'r Parc.

Mae'r map efydd yn rhan o ddatblygiad Pwynt Darganfod newydd y Geoparc ac mae tri monolith yn cadw cwmni iddo i groesawu ymwelwyr â'r Geoparc a'u hysbrydoli i archwilio'r tirlun amgylchynol. Mae byrddau â wyneb dehongli yn cael eu cynllunio ar gyfer y byrddau picnic.

Caiff Pwynt Darganfod newydd y Geoparc ei lansio yn ystod digwyddiad blynyddol Gŵyl Geoparc Fforest Fawr a gynhelir rhwng dydd Sadwrn 23 Mai a dydd Sul 7 Mehefin. Mae Geofest 2020 yn cynnwys rhaglen o deithiau cerdded a sgrysiâu am y Geoparc a'r diwrnod poblogaidd i'r teulu ym Mharc Gwledig Craig-y-nos.

Am wybodaeth bellach ewch i:
www.geoparcfforestfawr.org.uk/gwyl-geoparc-2020
neu cysylltwch ag Alan Bowring,
Swyddog Datblygu Geoparc ar 01874 620415 neu e-bost:
alan.bowring@beacons-npa.gov.uk



Cyfranogwyr Camau Bach yn cerdded ar hyd y gamlas yng Ngofilon

Prosiect Camau Bach yn dod â buddion i bobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl hir dymor

Prosiect partneriaeth ymchwil gweithredol dros gyfnod o ddwy flynedd yw Camau Bach, a ddarperir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Y nod yw gwella iechyd a llesiant preswylwyr y Parc Cenedlaethol sydd â chyflyrau iechyd meddwl hir dymor, a'u gwahodd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o deithiau cerdded a gweithgareddau oddi fewn i ffiniau'r Parc.

Mae cam ymchwil cychwynnol y prosiect wedi ei gwblhau bellach ac fe gafwyd rhai canlyniadau calonogol iawn. Cafodd yr effaith gaiff defnyddio'r gwasanaeth ei mesur ar ganol y cam cychwynnol a chasglwyd bod:

- Gostyngiad o'r defnydd o help cartref
- Gostyngiad o 71% o'r defnydd o wasanaeth GIG o ran y cyfranogwyr
- O'r rheini oedd mewn cysylltiad â Meddyg Teulu, gwnaeth yr amser a dreuliodd â Meddyg Teulu ostwng gan 50%
- Cafwyd gostyngiad o 80% o ran cyswllt cyfranogwyr â seiciatrydd

Mewn arolwg gwnaeth dros 80% o gyfranogwyr gytuno, neu gytuno'n gryf, fod eu llesiant meddyliol a chorfforol wedi gwella; eu bod yn teimlo'n llai ynysig yn gymdeithasol; eu bod wedi dysgu sgiliau newydd ac wedi cynyddu eu gwybodaeth am yr ardal lleol a'r gwasanaethau lleol. Ac yn bennaf eu bod wedi mwynhau cyfranogi yn y teithiau cerdded a'r gweithgareddau.

Ym mis Tachwedd 2019, cafwyd derbyniad llawn diddordeb i ganlyniadau'r prosiect mewn cyflwyniad yng Nghynhadledd Iechyd a Gofal Gwledig Cymru. Mae'r prosiect yn parhau yn 2020, gan gefnogi cyfranogwyr i fynd allan o gwmpas y Parc Cenedlaethol yn fwy annibynnol.

Am ragor o wybodaeth am brosiect Camau Bach, cysylltwch â Francesca Bell, Swyddog Datblygu Cymunedol ar 01874 624437 neu e-bost: francesca.bell@beacons-npa.gov.uk

Pont newydd i Bentrefelin

Mae Tîm Warden y Gorllewin wedi amnewid hen bont bren bydredig am un newydd sbon ar gyrion pentref Pentrefelin ger Pontsenni. Lluniwyd a dyluniwyd y bont yn lleol gan Derek Whitear, peiriannydd sydd wedi ymddeol a gwirfoddolwr yn y Parc Cenedlaethol. Mae modd croesi'r bont yn ddiogel bellach. Dyma un o'r nifer o welliannau hawliau tramwy a gyflawnwyd gan dimau'r warden gyda chymorth gwirfoddolwyr.





Nodweddion Gwlad y Rhaeadrau

Amcangyfrifir fod ymwelwyr â Gwlad y Rhaeadrau'n dod â phosibilrwydd o wario £10m iwn, ond mae llawer o'r arian hwn yn aros yn eu pocedi ac felly nid yw preswylwyr yn cael llawer o fudd ohono.

Mae Cyngor Cymunedol Ystradfellte a Phontneddfechan wedi sicrhau arian oddi wrth Gronfa Pen-y-Cymoedd a Datblygiad Cynaliadwy APCBB i archwilio i ba mor ddichonadwy fyddai sefydliad adfywio economaidd dan arweiniad y gymuned i ddal gafael ar beth o'r refereniw hwn i'w ddefnyddio mewn prosiectau dan arweiniad y gymuned.

Mae'r Cyngor Cymunedol wedi rhoi contract i Ymgynghorwyr Asiantaeth Ynni Gwy i edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael a pha fath o sefydliad cymunedol fyddai fwyaf addas. Eu nod yw y caiff y sefydliad hwn weld golau dydd erbyn diwedd y flwyddyn, gyda chynllun busnes cadarn ac arian wedi ei ddynodi.

Yn ystod 2020, byddan nhw'n gweithio â phreswylwyr a busnesau o gwmpas yr ardal i ddod o hyd i gyfleoedd cyfredol a newydd. Mae sawl sesiwn gweithdy wedi eu cynllunio yn ystod y gwanwyn, felly os oes diddordeb gennych mewn cymryd rhan neu os ydych yn egin entrepreneur â syniadau gwych, yna galwch heibio.

Cyswllt Llian Cornish, Cyngor Cymunedol Ystradfellte a Phontneddfechan ar:
07949 056810 neu e-bost:
WaterfallCountryFutures@gmail.com

Tai bach newydd cynaliadwy i Gomin Llangors

Pan gododd amheuaeth ynghylch dyfodol toiledau cyhoeddus Comin Llangors yn 2018, roedd gan grŵp twristiaeth Darganfod Llangors a Bwlch broblem i'w datrys. Cynhaliwyd ymgynghoriad cymunedol brys a'r canlyniad oedd deiseb ag arni dros 800 o enwau'n gofyn am gadw'r toiledau ar agor.

Yn dilyn hyn sefydlwyd Sefydliad Corfforedig Elusennol Toiledau Cymunedol Comin Llangors (CET) ym mis Mai 2018. Nod y grŵp oedd ceisio darparu toiled a chyfleustra cymunedol cynaliadwy ar gostau rhedeg gostyngedig. Roedd gan ymddiriedolwyr CET (gwirfoddolwyr i gyd) gyfuniad o sgiliau busnes ac amrywiaeth o gymwysterau proffesiynol. Rhoddwyd prydles o 15 mlynedd ar gyfer y toiledau i'r ymddiriedolwyr.

Roedd yn ofynnol codi swm sylweddol i gael gwared ar y toiledau cyhoeddus a safai, a'u hamnewid â thoiledau cynaliadwy sy'n ffit i'r dyfodol. Wrth weithio â Carol Williams a Richard Tyler o Dîm Twristiaeth Gynaliadwy'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, gwnaeth y grŵp gais am grant oddi wrth Gronfa Datblygu Cymunedol Gwledig Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn llwyddiannus, ac â chymorth parhaus oddi wrth Carol Williams, cynyddwyd ar lwyddiant y grŵp wrth iddynt ennill grant Cronfa Datblygu Cynaliadwy APCBB a Gwobrau'r Loteri Genedlaethol.

Ynghyd â'r ymgyrch codi arian, llwyddodd grwpiau cymunedol, unigolion a Chyngor Cymunedol Llangors sicrhau bod digon o arian i ymgymryd â'r gwaith. Cafodd yr hen doiledau eu chwalu ym mis Chwefror 2019 a dechreuodd y gwaith ar yr adeilad newydd ym mis Mehefin 2019.

Cam cyntaf y datblygiad oedd sicrhau llety i'r ystum pedol lleiaf, rhywogaeth a ddiogelir. Cafodd clwydian ystumod ei hadeiladu'n arbennig ar eu cyfer ar y safle, sef 'Gwesty'r Ystumod' fel y'i gelwir yn lleol.

Mae gan y toiledau newydd baneli solar, system casglu dŵr glaw danddearol, man golchi cŵn, paneli dehongli a bwrdd newid.



Toiledau Comin Llangors cyn ac ar ôl eu hadnewyddu

Cwblhawyd y gwaith ym mis Chwefror ac mae digwyddiad dathlu cymunedol ar y gweill ar gyfer mis Mehefin eleni.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Carol Williams, Swyddog Twf Twristiaeth drwy ffonio 01874 620478 neu e-bostio: carol.williams@beacons-mpa.gov.uk



Day2Stay



Derbyn y wobwr yng Nghaerdydd

Gwobr Academi Cymru Cynaliadwy: Cymeradwyaeth Uchel i “Bartneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon”!

Roedd cynrychiolwyr prosiect o'r Bartneriaeth, Awdurdod Parc Cenedlaethol, a grŵp Llysgenhadon Mynydd a Rhostir y Mynyddoedd Duon, yn bresennol yn Seremoni Gwobrau Academi Cynaliadwy Cymru yng Nghaerdydd ar 28 Tachwedd 2029 yn Stadiwm Principality.

Roedd cynrychiolwyr prosiect o'r Bartneriaeth, Awdurdod Parc Cenedlaethol, a grŵp Llysgenhadon Mynydd a Rhostir y Mynyddoedd Duon, yn bresennol yn Seremoni Gwobrau Academi Cynaliadwy Cymru yng Nghaerdydd ar 28 Tachwedd 2029 yn Stadiwm Principality. Cafodd y Bartneriaeth ei gosod ar restr fel Gwobr Addysg Gynaliadwy neu Hyfforddiant. Yn anffodus ni wnaethon nhw ennill y categori hwn. Fodd bynnag, cawsant ddyfarniad o 'gymeradwyaeth uchel' oddi wrth y beirniaid. Mae Gwobrau Academi Cynaliadwy yn dathlu rhagoriaeth cynaliadwyedd, arloesedd ac arweiniad o bob rhan o Gymru. Mae'r Gwobrau'n cydnabod y bobl wych, prosiectau a mentrau sy'n cyfrannu at y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol a'r Pum ffordd o Weithio, a gaiff eu disgrifio yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Nod prosiect Llysgenhadon y Mynydd a'r Rhostir yw ymgyssylltu a hyfforddi pobl fusnes twristiaeth leol, a'u helpu i gyfleu negeseuon am gynaliadwyedd i'w cwsmeriaid, fel y gallant yn eu tro ymweld a mwynhau'r Mynyddoedd Duon mewn ffordd gyfrifol. Menter arloesol yw hon, sydd am y tro cyntaf, yn dod â'r canlynol ynghyd i ddeall materion cynaliadwyedd: busnesau lleol, porwyr, tîrffeddiannwyr a chyrrff rheoleiddio. Mae'n gyflawniad eithriadol cael cydnabyddiaeth genedlaethol i'r brif Bartneriaeth hon, am ei rôl yn arwain y ffordd ynghylch cynaliadwyedd, a darparu addysg a hyfforddiant cynaliadwy, ac mae'n gyflawniad i'w ddathlu!

Am ragor o wybodaeth am ymweliad y Bartneriaeth ymwelwch â www.blackmountains.wales



Buddion lu i'r Mynyddoedd Duon yn sgil nawdd diweddar

Lansiwyd cronfa ariannol gwerth £45,000 i gefnogi hyfforddiant, syniadau neu brosiectau sy'n berthnasol i ddatblygiad gwledig, cefn gwlad gydnherth a chynaliadwyedd gwledig gan Bartneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon ddiwedd llynedd.

Hyd yma, mae'r nawdd hwn wedi galluogi'r canlynol:

- 10 unigolyn yn ennill cymwysterau galwedigaethol
- 26 o bobl i dderbyn hyfforddiant galwedigaethol
- 2 unigolyn yn cael eu cyflogi yn ardal y Mynyddoedd Duon
- 22 busnes lleol yn cael eu cefnogi – gydag un ohonynt yn gweld y mis gwerthiant gorau erioed yn dilyn ariannu ar gyfer busnes pwrpasol a hyfforddiant marchnata!
- Nifer o ffermydd ac ardaloedd coetir y Mynyddoedd Duon i elwa o welliannau ecolegol a gwelliannau i ymwelwyr – cafodd llwybrau ceffyl a llwybrau cerdded eu clirio a mynediad ei adfer. Mae unigolion hyfforddedig hefyd wedi bod yn cynorthwyo grwpiau cymunedol eraill gyda mentrau rheoli coetir.
- Llysgenhadon Mynydd a Rhostir y Mynyddoedd Duon i sefydlu eu grŵp cydlynu eu hunain a dechrau gweithio ar negeseuon rheoli ymwelwyr yn ogystal â chydweithio â Ffermwyr Ifanc.
- Grŵp o Ffermwyr Ifanc yn ennill cymwysterau llif gadwyn ac offer, gan gyfrannu at eu llwyddiant mewn cystadlaethau plygu perthi'r flwyddyn ddiwethaf gan godi proffil y sgil gwledig traddodiadol hwn o blygu perthi ymhellach yn ardal y Mynyddoedd Duon.

Edrychwn ymlaen at weld cynnydd dros yr ychydig fisoedd nesaf!

Mae'r Bartneriaeth yn fenter ar y cyd rhwng tîrffeddiannwyr lleol, porwyr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a Natural England. Maen nhw'n cydweithio i lunio rheolaeth gynaliadwy ac adnoddau naturiol y Mynyddoedd Duon, cefnogi datblygiad economaidd a gwella llesiant y sawl sy'n byw ac yn ymweld â'r ardal eiconig hon. Mae arian ar gael o'r UE a Chynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.



Adrodd am Faterion Hawliau Tramwy

Gellid sôn am unrhyw faterion yn ymwneud â hawliau tramwy fel difrod i lwybrau troed, camfeydd neu fynegbyst wrth ein Swyddog Hawliau Tramwy, Eifion Jones:

eifion.jones@beacons-npa.gov.uk
neu ffoniwch 01874 620452

Cymhorthfa Gynllunio

Am gyngor ar ddatblygiadau i ddeiliaid tai ac ymholiadau cyffredinol, bob dydd Mercher, o 9.30 -12.00 yb a 1.30-3.00 yb yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Aberhonddu. Mae apwyntiadau ar gael am gyfnodau o 30 munud, a rhaid eu harchebu ymlaen llaw.

Am apwyntiad neu unrhyw ymholiad cynllunio cyffredinol ffoniwch 01874 620431 os gwelwch yn dda.

Ymholiadau am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

I gael mwy o wybodaeth a chyngor am y Gronfa hon ewch i <http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/cynaliadwyedd-2/ly-gronfa-datblygu-cynaliadwy/> neu cysylltwch naill ai â

Helen Roderick
neu Ceri Bevan ar 01874 620471

Ebostiwch
helen.roderick@beacons-npa.gov.uk
ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau i'r chwe mis nesaf:

- 1 Ebrill
- 3 Mehefin
- 22 Awst
- 28 Hydref

Digwyddiadau

Am restr gyflawn a manylion pellach am y gweithgareddau a'r digwyddiadau yn y Parc Cenedlaethol ewch i www.breconbeacons.org/cy/whats-on

Celf ym Mharc Gwledig Craig-y-nos.

Bydd yr artist lleol, Julia Harris, yn rhedeg gweithdy celf un penwythnos bob mis rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd yn Ystafell Hibbert yn y Parc Gwledig.

Mae'r gweithdai'n arlwyio ar gyfer pob lefel o brofiad celf. Yn ystod gwyliau'r ysgol bydd hi'n cynnal arddangosfa ac yn rhedeg gweithdai paentio i blant bob dydd Mercher. Am wybodaeth bellach, dyddiadau a phrisiau gwiriwch wefan Julia: www.juliaharris.wales

Gŵyl Geoparc Fforest Fawr 2020

Cynhelir Gŵyl Geoparc Fforest Fawr 2020 rhwng dydd Sadwrn 23 Mai a dydd Sul 7 Mehefin.

Mae Gŵyl Geoparc 2020 yn cynnwys rhaglen o deithiau cerdded a sgrysiu am y Geoparc a diwrnod allan poblogaidd i'r teulu ym Mharc Gwledig Craig-y-nos. Am wybodaeth bellach ewch i: www.geoparcfforestfawr.org.uk/gwyl-geoparc-2020 neu cysylltwch ag Alan Bowring, Swyddog Datblygu Geoparc ar 01874 620415 neu e-bost: alan.bowring@beacons-npa.gov.uk



Matt Botwood

Eisiau ystafell gyfarfod yn Aberhonddu?

Mae'r canlynol ar gael i'w llogi gennym:

- Ystafell gynhadledd
- Ystafell Aelodau Fideo-gynadledda
- Ystafell Ymgynnull Fach

Gwasanaeth Arlwy ar gael
Am fanylion cysylltwch â'r Dderbynfa 01874 624437 neu edrychwch ar <http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/llogi-ystafell/>

Pabell Fawr Gymunedol Ar Gael

Mae cynllun benthg y Babell Fawr Gymunedol yn cynnig cyfle i grwpiau, ysgolion, elusennau a sefydliadau dielw eraill o fewn y Parc Cenedlaethol ddefnyddio'r Babell Fawr Gymunedol 20'x30' yn eu digwyddiadau lleol. Gofynnir am rodd.

I gael ffurflenni archebu, cysylltwch â Ceri Bevan ar 01874 620471 ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk

Gweddarllediadau

Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod ar gael i'w gweld trwy ficrowefan ein gweddarllediadau. Ewch i:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/gweddarlledu/>

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>


A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswilt/Swyddogion	Manylion Cyswilt	Rhif ffôn
Ymholiadau cyffredinol	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Addysg, Dehongli a Gwybodaeth	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Adnoddau Dynol	Liz Lewis	elizabeth.lewis@beacons-npa.gov.uk	01874 620436
Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, 'Y Ganolfan Fynydd', Libanus	Gwasanaethau Ymwelwyr	npvc@beacons-npa.gov.uk	01874 623366
Cyfarwyddwr Darparu	Steve Gray	angharad.hawkes@beacons-npa.gov.uk	01874 620438
Cyfathrebu	Emma Gray	communications@beacons-npa.gov.uk	01874 620406 01874 620420
Cymunedau cynaliadwy	Ceri Bevan/Helen Roderick Francesca Bell	communities@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Cyllid	Elaine Standen	elaine.standen@beacons-npa.gov.uk	01874 620467
Cynllun Rheoli	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Ecoleg	Brad Welch	bradley.welch@beacons-npa.gov.uk	01874 620411
Gwasanaethau Democraidd a Swyddfa	Julia Gruffydd	julia.gruffydd@beacons-npa.gov.uk	01874 620400
Geoparc Fforest Fawr	Alan Bowring	alan.bowring@beacons-npa.gov.uk	01874 620415
Gorfodi Cynllunio	Kathy Jenkins	enforcement@beacons-npa.gov.uk	01874 620416
Gweinyddiaeth y Gwasanaethau Cynllunio	Jane Pashley	planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 620422
Gwirfoddoli	Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr	volunteer.officer@beacons-npa.gov.uk	01874 620451


Cadwch mewn cysylltiad â'r diweddaraf

Erbyn hyn mae hyd yn oed mwy o ffyrdd i gael gwybod y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

 **Gallwch gysylltu â ni ar @croesobannaub**
.....

Dilynwch ni drwy Facebook
www.facebook.com/bannaubrycheiniog
.....


 **Gweler y fideos ar ein sianel Youtube**
www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA
.....

 **www.instagram.com/breconbeacons**

A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswllt/Swyddogion	Manylion Cyswllt	Rhif ffôn
Hawliau Tramwy	Eifion Jones	eifion.jones@beacons-npa.gov.uk	01 874 620452
Parc Gwledig Craig-y-nos Pen-y-Cae	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01 874 624437
Prif Weithredwr	Julian Atkins	jean.packer@beacons-npa.gov.uk	01 874 620469
Strategaeth a Pholisi Cynllunio	Helen Lucocq	helen.lucocq@beacons-npa.gov.uk	01 874 620442
Technoleg Gwybodaeth	Paul Funnell	paul.funnell@beacons-npa.gov.uk	01 874 620459
Treftadaeth	Alice Thorne Archaeoleg Janet Poole Cadwraeth Adeiladau	alice.thorne@beacons-npa.gov.uk janet.poole@beacons-npa.gov.uk	01 874 620418 01 874 620413
Twristiaeth gynaliadwy	Richard Tyler	richard-tyler@beacons-npa.gov.uk	01 874 620405
Y Gwasanaeth Wardeniaid	Judith Harvey	judith.harvey@beacons-npa.gov.uk	07854 997510



Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

ffotograffau © APCBB